

# Dogfen ymgynghori

## B5129 - Stryd Fawr Shotton

Dyddiad Cyhoeddi: 21/07/2022  
Ymatebion erbyn: 14/08/2022

This document is also available in English.  
Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.

## **Trosolwg**

Mae Cyngor Sir y Fflint yn ceisio eich barn am gynigion i weithredu isadeiledd Teithio Llesol (cerdded a beicio), gwelliannau i'r amgylchedd naturiol a mesurau i wella llif y traffig ar y B5129 Stryd Fawr Shotton a Brook Road i Shotton Lane.

## **Sut i ymateb**

Llenwch a dychwelwch yr 'holiadur ffurflen ymateb' i'r cyfeiriad isod erbyn 14 Awst 2022.

**Print bras, Braille a fersiynau mewn ieithoedd amgen o'r ddogfen hon ar gael ar eich cais.**

## **Gwybodaeth bellach a dogfennau cysylltiedig**

Mae'r ddogfen ar gael yn:

[www.siryfflint.gov.uk/shotton](http://www.siryfflint.gov.uk/shotton)

## **Manylion Cyswllt**

I gael unrhyw wybodaeth ychwanegol:

E-bost: [metro@flintshire.gov.uk](mailto:metro@flintshire.gov.uk)

A wnewch chi gynnwys 'B5129 – Shotton' ar y llinell testun.

Swydd:

Strategaeth Cludiant

Cyngor Sir y Fflint

Depo Alltami

Ffordd yr Wyddgrug

Alltami

Sir y Fflint

CH7 6LG

## Cyflwyniad

Yn 2020, bu i Gyngor Sir y Fflint ymgynghori ar gynigion yn ymwneud â gwelliannau Teithio Llesol, buddsoddiadau Isadeiledd Gwyrdd a mesurau traffig i gefnogi'r llif traffig presennol ar hyd y B5129 Shotton (Brook Road at Shotton Lane). Yn dilyn adolygiad o'r cynigion, mae Cyngor Sir y Fflint yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus pellach er mwyn rhoi cyfle i drigolion, busnesau a'r boblogaeth ehangach i roi sylw ar y cynigion.

## Ymgynghoriad ar y Cynllun

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn canolbwyntio ar y B5129 Chester Road East o Brook Street, i Chester Road West, Cyffordd Shotton Lane.

Mae'r cyfnod ymgynghori ar agor tan hanner nos ar 14 Awst 2022.

Cynhelir dau ddogwyddiad gwybodaeth ble fydd ymwelwyr yn gallu gweld a rhoi sylw ar y cynigion (manylion isod).

- **Dydd Iau 21 Gorffennaf 2022 – Eglwys Rivertown, Ffordd Gorllewin Caer, Shotton, Glannau Dyfrdwy, Sir y Fflint, CH5 1BX**  
Ar agor i'r cyhoedd o 1pm tan 6pm  
Ar agor i fusnesau o 6pm tan 8pm
- **Dydd Gwener 22 Gorffennaf 2022 – Neuadd Eglwys Sant Ethelwold, Shotton, Glannau Dyfrdwy, CH5 1QD**  
Ar agor i'r cyhoedd o 1pm tan 6pm  
Ar agor i fusnesau o 6pm tan 8pm

## Pam fod angen y mesurau ar hyd Stryd Fawr Shotton?

Mae Stryd Fawr Shotton yn goridor teithio pwysig gan ddarparu cysylltiadau strategol allweddol i ardaloedd cyflogaeth, addysg a gwasanaethau. Fodd bynnag, i'r rhai sy'n byw, gweithio neu'n teithio yn rheolaidd trwy Shotton, mae cyrraedd cyfleusterau lleol, un ai mewn car, beic neu ar droed, yn hanesyddol wedi bod yn anodd oherwydd tagfeydd ac achosion o wrthdaro rhwng cerddwyr a beicwyr ar y troedffyrdd.

Mae Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Cymreig i gyflwyno gwelliannau teithio llesol o un flwyddyn i'r llall ar draws eu siroedd. Mae Stryd Fawr Shotton wedi ei nodi fel coridor allweddol ar gyfer gwelliannau Teithio Llesol oherwydd ei gysylltiadau strategol ag ardaloedd o gyflogaeth, addysg a gwasanaethau.

Yn ogystal â'r Mesurau Teithio Llesol, a'r Gronfa Werdd a ariennir gan Lywodraeth Cymru a Gwasanaeth Adfywio'r Gyngor Sir, bydd y cynllun hefyd yn elwa o gyflwyno buddsoddiadau isadeiledd gwyrdd ar y Stryd Fawr a meysydd parcio cyfagos sy'n gwasanaethu Canol y Dref. Bydd mesurau yn cynnwys tyllau coed, gerddi glaw a safleoedd bws gwyrdd.

Mae mesurau rheoli traffig eraill wedi eu hanelu at wella llif y traffig a lleihau tagfeydd hefyd yn cael eu hystyried, sy'n cynnwys cyflwyno lonydd troi i'r dde dynodedig a newidiadau i rai Dim Mynediad/Unffordd mewn strydoedd preswyl oddi ar y stryd fawr.

## **Adeiladu**

Er bod gan y newidiadau arfaethedig y potensial i wella ansawdd bywyd yn fawr i drigolion yn ogystal â chynnig dewisiadau teithio gwyrdd amgen ar gyfer siwrneiau lleol gyda manteision amlwg i i iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd lleol, fel gyda phob cynllun gwella o'r fath, bydd lefel o darfu na ellir ei osgoi er mwyn gweithredu'r newidiadau. Pe byddai'r cynllun yn mynd yn ei flaen, rhagwelir y byddai'r gwaith yn cymryd tua 11 mis i'w gwblhau a byddai angen defnyddio goleuadau traffig dros dro ar y B5129, 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos.

## **Manylion y Cynllun**

Mae'r cynigion yn cynnwys:

- Lonydd beicio hybrid (dau gyfeiriad) yn ymestyn ar hyd y B5129 o Brook Road at Shotton Lane.
- Isadeiledd gwyrdd (Coed, tirlunio a safleoedd bws gwyrdd)
- Mesurau Traffig (cyflwyno lonydd Troi i'r Dde dynodedig a newidiadau i'r darpariaethau Dim Mynediad/Unffordd sy'n bodoli.

Ar gyfer manylion y cynigion, edrychwch ar y darluniau sydd ynghlwm (Shotton)

## **Sut allaf i wneud sylwadau?**

Rydym eisiau clywed eich barn am ein cynigion. Yna gallwn ystyried eich barn a chynorthwyo wrth gyfeirio'r Awdurdod a Llywodraeth Cymru ar gyfer cynlluniau'r dyfodol. Mae sawl ffordd y gallwch wneud sylwadau;

- Llenwi holiadur yr ymgynghoriad ar ddiwedd y daflen hon a'i ddychwelyd i'r Strategaeth Gludiant, Cyngor Sir y Fflint, Depo Alltami, Ffordd yr Wyddgrug, Alltami, Sir y Fflint, CH7 6LG.
- Cwblhau'r ymatebion ar-lein yn [www.siryfflint.gov.uk/shotton](http://www.siryfflint.gov.uk/shotton)
- Mynychu un o'n digwyddiadau gwybodaeth ble fydd copïau papur o'r ffurflen ymateb ar gael
- **Dydd Iau 21 Gorffennaf 2022 – Eglwys Rivertown, Ffordd Gorllewin Caer, Shotton, Glannau Dyfrdwy, Sir y Fflint, CH5 1BX**

Ar agor i'r cyhoedd o 1pm tan 6pm

Ar agor i fusnesau o 6pm tan 8pm

- **Dydd Gwener 22 Gorffennaf 2022 – Neuadd Eglwys Sant Ethelwold, Shotton, Glannau Dyfrdwy, CH5 1QD**

Ar agor i'r cyhoedd o 1pm tan 6pm

Ar agor i fusnesau o 6pm tan 8pm

— E-bost: [metro@flintshire.com](mailto:metro@flintshire.com)

— Ysgrifennwch at: Strategaeth Gludiant, Cyngor Sir y Fflint, Depo Alltami, Ffordd yr Wyddgrug, Alltami, Sir y Fflint, CH7 6LG.

Byddwn yn ddiolchgar o gael eich ymateb erbyn hanner nos dydd Gwener 14 Awst 2022 fan bellaf.

## Y Camau Nesaf

Byddwn yn adolygu'r holl sylwadau pan fydd ffenestr adborth yr ymgynghoriad ar gau. Bydd y rhain yn cael eu dadansoddi a ffurfio adborth angenrheidiol i gynorthwyo i gyfeirio'r Awdurdod a Llywodraeth Cymru ar gyfer cynlluniau'r dyfodol.

Bydd diweddariadau ar y cynlluniau arfaethedig ar gael yma:

[www.siryfflint.gov.uk/shotton](http://www.siryfflint.gov.uk/shotton)

## Ffurflen adborth ymgynghori

Rydym yn croesawu eich sylwadau ar y cynllun arfaethedig, ynghyd ag unrhyw bryderon ynghylch unrhyw faterion rydych yn dymuno eu codi. A fyddechystal â llenwi'r ffurflen isod a'i dychwelyd i:

Strategaeth Cludiant

Cyngor Sir y Fflint

Depo Alltami

Ffordd yr Wyddgrug

Alltami

Sir y Fflint

CH7 6LG

## Holiadur

C1 Beth yw eich Cod Post?

C2 A yw'r cynigion yn effeithio ar eich eiddo?

C3 Oes gennych unrhyw sylwadau ar ein cynigion ar gyfer Stryd Fawr Shotton?

C4 Oes gennych chi unrhyw sylwadau yn ymwneud ag adeiladu'r cynllun?

C5 Oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach?

### **Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR)**

Bydd Cyngor Sir y Fflint yn rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol y byddwch yn ei ddarparu fel rhan o'ch ymateb i'r ymgynghoriad. Bydd eich data personol yn cael ei brosesu gan Gyngor Sir y Fflint at y diben penodol o ddelio gyda'ch ceisiadau. Mae angen prosesu eich data personol fel rhan o'n tasg gyhoeddus. Bydd Cyngor Sir y Fflint yn cadw eich data am 5 blynedd. Os bydd Cyngor Sir y Fflint yn cwblhau dadansoddiad pellach o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, mae'n bosibl y byddwn yn comisiynu trydydd parti achrededig i ymgymryd â'r gwaith. Os ydych o'r

farn bod Cyngor Sir y Fflint wedi cam-ddefnyddio eich data personol ar unrhyw adeg, gallwch anfon cwyn at Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ymweld â'u gwefan neu drwy ffonio eu llinell gymorth ar 0303 123 1113.

I gael rhagor o wybodaeth am sut mae Cyngor Sir y Fflint yn prosesu data personol a'ch hawliau, edrychwch ar yr hysbysiad preifatrwydd ar ein gwefan:

<http://www.flintshire.gov.uk/en/Resident/Contact-Us/Privacy-Notice.aspx>